# #LookCloser
# Rhaglen Dysgu

The Children's Society

## Ebrill - Medi 2026

**Rydym yn falch iawn o'ch gwahodd i ymuno â ni ar gyfer ein rhaglen ddysgu #EdrychYn Agosach ddiweddaraf. Rydym wedi datblygu ein sesiynau yn seiliedig ar wybodaeth gan Gymdeithas y Plant a phartneriaid ehangach i fynd i'r afael â cham-drin plant a chamfanteisio.**

Mae'r holl sesiynau ar gael yn rhad ac am ddim, ac maen nhw'n cael eu cyflwyno ar Microsoft Teams Live sy'n golygu:

- Y bydd cyfleoedd cyfyngedig i ryngweithio â'r cyflwynwyr a'r cyfranogwyr
- Fodd bynnag, bydd swyddogaeth Holi ac Ateb ar gael
- Byddwn yn defnyddio adnoddau fel Menti i ddarparu cyfleoedd ymgysylltu a thrafod.

Mae'r amserlen isod yn cynnwys dolenni i bob digwyddiad dysgu ar EventBrite, lle gallwch archebu lle ar gyn lleied neu gynifer o ddigwyddiadau ag y dymunwch. Mae pob un o'n sesiynau wedi'u cynllunio ar gyfer cynulleidfaoedd proffesiynol amrywiol, felly cofiwch rannu'r digwyddiadau hyn gydag unrhyw un a fyddai'n elwa o fynychu yn eich barn chi.
Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein digwyddiadau dysgu, cysylltwch â prevention@childrenssociety.org.uk

| Dyddiad | Amser | Sesiwn |
|---|---|---|
| **Dydd Mawrth 16 Mehefin** | **14:00-16:00** | **Atal ac amharu ar gam-fanteisio ar blant o fewn yr economi nos** |
| **Dydd Lau 16 Gorffennaf** | **10:00 - 12:00** | **Amharu ar gam-fanteisio ar blant** |
| **Dydd Mawrth 157 Medi** | **13:00 - 15:00** | **Iaith briodol** |

Gwybodaeth am Sesiynau Dysgu: Nod y sesiynau hyn yw gwella sgiliau gweithwyr proffesiynol yn y maes pwnc a nodi pwyntiau myfyrio ar gyfer ymarfer yr unigolion eu hunain i'w rhannu â'u timau a'u rhwydweithiau ehangach. Disgwylir y bydd y gynulleidfa yn un amrywiol, felly mae'r sesiwn wedi'i hysgrifennu i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ar lefelau gwahanol sydd â lefelau gwahanol o wybodaeth mewn ystod o leoliadau a sectorau.
Efallai y byddwch am ddarllen rhai o'n hadnoddau cyn mynychu ein sesiynau er mwyn gallu manteisio'n llawn arnynt, ond does dim rhaid gwneud hynny.